# Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
## Crynodeb nyrsio anabledd dysgu

## Argymhellion

Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod nyrsys anabledd dysgu yn rhan annatod o bob agwedd ar ofal, gan gynnwys gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd. Rhaid i'r byrddau iechyd fabwysiadu dull 'dim drws anghywir' a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu lapio o amgylch yr unigolyn a'u teuluoedd. I wneud hyn, mae angen buddsoddiad sylweddol mewn nyrsio anabledd dysgu cyn ac ar ôl cofrestru.

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer rheoli'r pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'n defnyddio dull cyson o reoli pontio o 14 i 25 oed. Rhaid i nyrsys anabledd dysgu allu cefnogi unigolyn ag anabledd dysgu ar ei daith drwy'r broses hon o blentyndod i oedran h n.

Rhaid i Lywodraeth Cymru geisio deall effaith pandemig COVID-19 ar bobl ag anabledd dysgu a sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol posibl y pandemig yn cael eu lliniaru a bod pobl ag anabledd dysgu yn cael eu hystyried mewn cynlluniau ar gyfer 'byw â Covid' ac adfer.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod digon o nyrsys anabledd dysgu yng Nghymru